

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 31 (Caerwys) i Gyffordd
32a (Pentre Helygain), Sir y Fflint)
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a
Cherddwyr Dros Dro) 2025

The A55 Trunk Road (Junction 31
(Caerwys) to Junction 32a (Pentre
Halkyn), Flintshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2025

Gwnaed 8 Gorffennaf 2025

Made 8 July 2025

Yn dod i rym 14 Gorffennaf 2025

Coming into force 14 July 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 31 (Caerwys) i Gyffordd 32a (Pentre Helygain), Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Gorffennaf 2025.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 31 (Caerwys) to Junction 32a (Pentre Halkyn), Flintshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2025 and this Order comes into force on 14 July 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“works period”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 21:30 o'r

Interpretation

2. In this Order—

“the trunk road” (“y gefnffordd”) means the A55 Chester to Bangor trunk road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

gloch ar 14 Gorffennaf 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;
ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

Gwaharddiadau

- 3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.
- 4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.
- 5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

- 6. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

- 7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Gorffennaf 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

- Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 31 hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32a.
- Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32a hyd at ganolbwynt Cyffordd 31.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 21:30 hours on 14 July 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions

- 3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.
- 4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.
- 5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

- 6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

- 7. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 8 July 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

- The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 31 to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 32a.
- The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 32a to the centre-point of Junction 31.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31.

The lengths of the eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 31.

Y darnau o'r ffyrdd ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 32.

The lengths of the eastbound and westbound exit slip roads at Junction 32.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32a.

The length of the westbound entry slip road at Junction 32a.